



Ionawr 13eg 2019



Croeso cynnes i chi gyd bore 'ma. Mae'r oedfa yn nwylo Rhiannon Humphreys ac Eirian.

Yr Wythnosau Nesaf

Ionawr 20fed - Oedfa i'r teulu cyfan gyda

Ceri Anwen

Ionawr 27ain - Keith Rowlands

Chwefror 3ydd - Oedfa'r Pentrefi -

Llantrisant, Llanharan a Meisgyn

Chwefror 10fed - Y Parchg Dyfrig Rees,

Ysg Cyffredinol yr enwad

Chwefror 17 - oedfa i'r teulu gyda

Dafydd a Lowri Roberts

Chwefror 24ain Parchg Gethin Rhys

Mawrth 3ydd - Oedfa'r Pentrefi gyda

Phentre'r Eglwys a Thonteg

Mawrth 10fed - Emlyn Davies

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:


carolinerees2@hotmail.com

Merched y Tabernacl

Mae Ros wedi pasio'r awenau i Judith Thomas eleni. Dymunwn yn dda i'r grŵp dros y flwyddyn nesaf gan ddiolch i Ros am ei gwaith ac i Judith am yr hyn sydd i ddod!

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL:

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu



www.nakedpastor.com

Tafod y Tab

Diolch o galon i'r rhai hynny ohonoch sydd eisoes wedi anfon adroddiad a/neu luniau i'w cynnwys yn rhifyn Ionawr o **Tafod y Tab**. Gan mai ein bwriad yw rhoi'r rhifyn yn ei wely erbyn diwedd wythnos nesaf gorau po gyntaf i ni dderbyn gweddill y cyfraniadau. Dylid eu hanfon i gyfeiriad e-bost Eleri a Gwilym. Diolch. gehpengwern@yahoo.co.uk

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod cyntaf y flwyddyn o'r Bwrdd nos Fawrth 15 Ionawr. Os oes unrhyw adroddiad gennych i'w gyflwyno neu fater yr hoffech ei godi gyda'r Bwrdd yna cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd erbyn nos Lun 14 Ionawr (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205 / 07710 237327).

Mae gwybodaeth am waith yr elusennau a llawer arall ar wefan y capel: www.tabernacl.org

Rhestrau: Blodau a Chroesawu 2019

Os hoffech gyfrannu blodau, neu wneud y croesawu wrth ddrws y ffyrnt ar fore Sul, plis torrwrch eich henw ar y rhestrau yn y cyntedd. Diolch. Croeso i bawb gyfrannu.

Heddiw am 3 yp

Mae llawer o bethau yn y Ganolfan a allai fod yn sbwriel, neu yn bethau gwerthfawr. Gadawyd nhw yno dros y blynyddoedd ac mae'r lle wedi llenwi. A wnaiff un aelod o bob grŵp allweddol yn y capel fod ar gael y prynhawn 'ma er mwyn helpu gyda'r clirio - y Twmiaid, Ysgol Sul, y gynulleidfa Saesneg ac aelod o'r Bwrdd. Dylai gymryd dim mwy nag awr. Plis mynnwch air gyda Caroline Rees.

Cyfraniadau ac Amlenni 2019

Os hoffech gyfrannu drwy siec, cofiwch i'w gwneud yn daladwy i 'Capel y Tabernacl, Cyf.' ac i nodi ar gefn y siec os yw'n gyfraniad at apêl benodol (e.e. Apêl Madagasgar). I'r aelodau sy'n bwriadu defnyddio amlenni gwyn a/neu frown yn 2019, gellir eu casglu o'r blwch yng nghyntedd y capel. Diolch yn fawr